Ymchwil y Gronfa Loteri Fawr
Rhifyn 61

Rhaglen Pawb a'i Le
Crynodeb Gwerthuso Blwyddyn Dau

Cymru

Crynodeb Gwerthuso Pawb a'i Le

Côd stoc	BIG-P&PEVAL2W
ISSN	1744-4756(Print)
ISSN	1744-4764(Ar-lein)
Ffotograffydd	Robert Rathbone
Ysgrifennwyd gan	Renu Verma

Gellir cael rhagor o gopïau o:

Ffôn	01686 611 700
Ffôn testun	01686 610 205
E-bost	ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ein gwefan	www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr ac ariannwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadau dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Ebrill 2010

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o ail flwyddyn gwerthusiad y rhaglen Pawb a'i Le. Dyma ein dehongliad ni o brif ganfyddiadau'r adroddiad gwerthuso. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn adran Ymchwil a Dysgu gwefan y Gronfa Loteri Fawr, www.cronfaloterifawr.org.uk.

Mae rhaglen Pawb a'i Le yn cefnogi prosiectau sy'n arwain at un neu fwy o'r canlyniadau hyn:

- Cymunedau wedi'i hadfywio
- Gwell cysylltiadau cymunedol
- Gwell amgylcheddau, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol.

Canfyddiadau allweddol

Mae prosiectau'n ymgynghori'n helaeth â chymunedau cyn datblygu ceisiadau.
Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni lefel uchel o ymgynghori gyda chymunedau lleol a grwpiau buddiolwyr wedi'u targedu wrth ddatblygu a dylunio gweithgareddau. Ymgynghorodd 88 y cant o ymgeiswyr gyda grwpiau buddiolwyr wedi'u targedu a chymunedau lleol cyn datblygu eu ceisiadau.

Mae prosiectau'n cynnwys buddiolwyr wrth gyflwyno, dylunio a rheoli prosiectau.
Mae 53 y cant o reolwyr prosiectau'n adrodd bod cymunedau lleol a buddiolwyr yn ymwneud â dylunio a chynllunio'r prosiect Nododd 52 y cant o brosiectau fod buddiolwyr yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau, ac mae 33 y cant o brosiectau'n cynnwys buddiolwyr wrth reoli prosiectau.

Mae'r mwyafrif o'r ariannu wedi cael ei ddyrannu i sefydliadau sydd wedi bodoli ers tro ac sydd â phrofiad o ymgeisio am ariannu.
Mae 79 y cant o sefydliadau y dyfarnwyd arian iddynt wedi bodoli ers mwy na phum mlynedd.

Mae ymgeiswyr llwyddiannus wedi hygyrchu mwy o gefnogaeth gan Tribal, CGS, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill nag ymgeiswyr aflwyddiannus.
Derbyniodd 73 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus gefnogaeth neu arweiniad gan CGS, Awdurdodau Lleol, Tribal Consulting neu asiantau eraill wrth baratoi eu ceisiadau ariannu, o'i gymharu â 58 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus.

Mae barn ymgeiswyr am y broses ymgeisio yn gymysg.
Graddiodd 77 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus broses ymgeisio'r Gronfa yn 'dda' neu'n 'ardderchog' o'i gymharu â 34 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus.

Er bod 53 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus yn graddio cyflymder y broses ymgeisio yn 'dda' neu'n 'ardderchog', dim ond 20 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus oedd wedi mynegi'r un farn.

Hoffai ymgeiswyr gael lefel uwch o ryngweithio gyda'r Gronfa Loteri Fawr i drafod y rhaglen Pawb a'i Le.
Mae ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus wedi gofyn am fwy o gyswllt uniongyrchol gyda staff y Gronfa Loteri Fawr a mwy o ddigwyddiadau gweithdy i'w galluogi i ddatblygu gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau'r Gronfa Loteri Fawr a phroses ymgeisio Pawb a'i Le.

Mae prosiectau'n elwa o waith partneriaeth.
Adroddodd 67 y cant o brosiectau eu bod wedi elwa o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a statudol eraill.

Y manteision mwyaf cyffredin a ddaw o waith partneriaeth yw:

- Datblygu sgiliau newydd a dysgu am feysydd gwaith newydd
- Cyfrannu at gynaladwyedd prosiectau
- Gwell ymwybyddiaeth o weithgareddau'r prosiect ymysg y gymuned leol.

Mae cynaladwyedd yn bryder allweddol i brosiectau.
Mae 61 y cant o ymgeiswyr yn bwriadu ymgeisio am arian ychwanegol ar gyfer eu prosiect ar ôl i'w grant Pawb a'i Le ddod i ben.

Cyflwyniad

Pawb a'i Le

Lansiwyd rhaglen Pawb a'i Le ym mis Tachwedd 2005 gyda chyllideb gychwynnol o hyd at £66m. Oherwydd ei phoblogrwydd a'i llwyddiant, bydd y rhaglen yn parhau i ddyfarnu grantiau hyd at 2011, gyda chyllideb flynyddol gynyddol o hyd at £19.5m ar gyfer y flwyddyn 2010/11. Mae'r rhaglen yn ariannu prosiectau sy'n gweithio mewn ardal ddaearyddol benodol, yn rhanbarthol neu ar draws Cymru, gan ddarparu grantiau rhwng £5,001 a £1,000,000 ar gyfer hyd at dair blynedd. Roedd y rhaglen wedi dyfarnu 253 o grantiau, gyda chyfanswm gwerth o £53,950,492 hyd at fis Rhagfyr 2009.

Cynhaliwyd arolwg o 180 o ymgeiswyr a deiliaid grantiau fel rhan o ail flwyddyn y gwaith maes.

Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar effaith y rhaglen a barn a phrofiad pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect. Mae dwy flynedd gyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar adolygu strategaethau y mae prosiectau wedi'u datblygu i nodi anghenion, dadansoddi cyfranogiad y gymuned mewn prosiectau, profiad ymgeiswyr o ymgeisio i'r rhaglen a'r ymagwedd ariannu sy'n ymateb i alw.

Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cyfeirio datblygiad rhaglenni ariannu'r Gronfa Loteri Fawr yn y dyfodol.

Y Gwerthusiad

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi comisiynu Wavehill Consulting i werthuso'r rhaglen rhwng 2007 a 2012.

Mae amcanion y gwerthusiad fel a ganlyn:

- Gwerthuso llwyddiannau prosiectau o ran nodi a mynd i'r afael ag anghenion buddiolwyr arfaethedig, gan gynnwys y rhai sydd â'r anghenion mwyaf neu sydd anoddaf eu cyrraedd.
- Asesu i ba raddau mae cymunedau lleol yn cymryd rhan wrth gynllunio a rhedeg prosiectau, ac effaith y cyfranogiad hwn mewn perthynas â chyflawni nodau'r rhaglen.
- Gwerthuso effeithiolrwydd prosiectau o ran cyflawni eu hamcanion diffiniedig eu hunain a sut maent yn cydweddu â strategaethau a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.
- Dadansoddi canlyniadau unrhyw brosiectau arloesol sy'n derbyn grantiau dros £500,000.
- Gwerthuso effeithiolrwydd yr ymagwedd benodol sy'n ymateb i alw yng Nghymru ac yn benodol, i ba raddau y mae mentrau sydd wedi'u dylunio'n lleol a'u symbylu gan y gymuned yn helpu i gyflawni canlyniadau rhaglenni lefel uchel.
- Mae'r fethodoleg werthuso'n cynnwys adolygu data monitro a gynhelir gan y Gronfa Loteri Fawr, arolygon blynyddol, cyfweliadau ac ymweliadau astudiaeth achos â phrosiectau, gydag ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, cyfweliadau â staff y Gronfa Loteri Fawr ac aelodau Pwyllgor y rhaglen.

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Nodi anghenion lleol a mynd i'r afael â nhw

Mae ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i nodi'r angen am brosiect. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwil newydd i ganfod anghenion y gymuned darged a dadansoddi tystiolaeth a gasglwyd o'u gwaith blaenorol. Ymgynghorodd 88 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus â'u grwpiau targed i gasglu gwybodaeth bellach am anghenion a diddordebau eu buddiolwyr arfaethedig. Tystiolaeth annigonol o angen yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros wrthod cais am ariannu. Gwrthodwyd 21 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus am y rheswm hwn.

Gweithio gyda phobl sydd wedi profi aflonyddu, camdriniaeth a bygwth hiliol yn Abertawe.

Mae Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe'n darparu cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n byw yn Abertawe neu Gastell-nedd Port Talbot ac sydd wedi dioddef aflonyddu, camdriniaeth neu fygwth hiliol. Mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth allgymorth ac yn helpu pobl sydd â gormod o ofn neu heb ddigon o hyder i roi gwybod i'r Heddlu am droseddau. Mae'r prosiect hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o achosion o hiliaeth ac yn annog pobl i ddefnyddio cefnogaeth gymdeithasol ac ymarferol a ddarperir gan asiantaethau eraill.

Casglwyd tystiolaeth o'r angen am y gwaith drwy waith blaenorol ac ymchwil newydd y sefydliad. Cyflawnodd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe drafodaethau grwpiau ffocws gyda phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i gasglu tystiolaeth am eu profiadau, eu diddordebau a'u blaenoriaethau. Ar ben hynny, ymgynghorodd y prosiect â phob un o'r deunaw sefydliad Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn yr ardal i ddysgu am eu hymchwil, eu profiadau a'u meysydd gwaith.

> "Cymuned agos iawn yw hon, ac o ganlyniad i ddeialog cyson gyda'n grŵp cleientiaid rydym wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'u hanghenion."
>
> Rheolwr Prosiect, Cludiant Cymunedol Llanidloes a'r Cylch

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Cynnwys cymunedau a buddiolwyr lleol mewn prosiectau

Adroddodd rheolwyr prosiectau fod buddiolwyr yn ymwneud â rheoli a chyflwyno prosiectau. Adroddodd 53 y cant o reolwyr prosiectau fod cymunedau lleol a buddiolwyr yn ymwneud â dylunio a chynllunio gweithgareddau, a nododd 52 y cant fod buddiolwyr yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau. Ar ben hynny, dywedodd 46 y cant o reolwyr prosiectau fod buddiolwyr yn ymwneud â phenderfyniadau am brosiectau.

Mae manteision cynnwys y gymuned a buddiolwyr lleol wrth reoli a chyflwyno prosiectau fel a ganlyn:

- Mae cymunedau'n cael gwell ymdeimlad o berchen ar brosiectau.
- Gwell dysgu am anghenion pobl leol
- Darperir cyfleoedd i bobl a buddiolwyr prosiectau lleol wella eu sgiliau ymarferol a'u hyder.

Cefnogi pobl ifanc yn y Drenewydd, Glyn Ebwy

Mae canolfan gymunedol newydd i bobl ifanc yn y Drenewydd yn anelu at gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a dysgu. Mae'r ganolfan hefyd yn darparu gwasanaethau allgymorth, cyngor ac eirioli sy'n canolbwyntio ar anghenion a diddordebau penodol pobl ifanc lleol. Mae aelodau'r gymuned wedi bod yn ymwneud â'r prosiect o'r cam dylunio a chynllunio hyd at y cam rheoli. Mae'r pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd bob mis sy'n agored i holl aelodau'r gymuned er mwyn adrodd am gynnydd y prosiect a cheisio adborth gan bobl leol. Mae sefydliadau partneriaeth lleol allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent, Cymunedau'n Gyntaf, Swyddogion Pobl Ifanc a'r Heddlu Cymunedol, yn dod i gyfarfodydd y pwyllgor bob amser.

> "Petaem yn dibynnu ar sefydliadau cenedlaethol yn unig, byddem wedi colli llais menywod ar yr ymylon... y grŵp o bobl rydym yn eu targedu."
>
> Rheolwr Prosiect, Oxfam

3Bs
3Bs

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Gwaith partneriaeth

Mae nifer sylweddol o brosiectau'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gwirfoddol a statudol lleol. Mae rheolwyr prosiectau'n teimlo mai mantais fwyaf cyffredin gweithio mewn partneriaeth yw'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ei chynhyrchu. Adroddodd prosiectau hefyd fod gwaith partneriaeth yn ffordd effeithiol o sicrhau cynaladwyedd gweithgareddau, gan gynyddu ymwybyddiaeth o weithgareddau a chryfhau hygrededd mentrau.

> "Mae wedi cynyddu fy ymwybyddiaeth o brosiectau eraill sy'n cael eu cynnal yn yr ardal...Rwyf hefyd wedi dysgu o sefydliadau eraill am yr hyn sy'n gweithio, ac mae hyn wedi dod â materion penodol i'm sylw."
>
> Rheolwr Prosiect

Sefydliadau sy'n elwa o Arian Pawb a'i Le

Dyfarnwyd y rhan fwyaf o arian Pawb a'i Le i sefydliadau profiadol a sefydledig. Mae 79 y cant o'r ymgeiswyr llwyddiannus y cynhaliwyd cyfweliadau gyda nhw wedi bodoli ers mwy na phum mlynedd. Mae'r sefydliadau hyn yn fwy tebygol o feddu ar brofiad o gyflwyno prosiectau a gweithio gyda'u grwpiau targed. Ceir pryderon ymysg budd-ddeiliaid a rhai ymgeiswyr ei fod yn anoddach i grwpiau cymunedol bach a llai profiadol gael gafael ar arian Pawb a'i Le.

Cefnogaeth i ymgeiswyr Pawb a'i Le

Daeth 72 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus o hyd i gefnogaeth wrth ddatblygu eu cais ariannu, o'i gymharu â 58 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus. Awdurdodau Lleol, y Sector Cymunedol a Gwirfoddol lleol a Tribal Consulting oedd y ffynonellau cefnogaeth mwyaf cyffredin.

Amlygodd ymgeiswyr berthnasedd a gwerth arweiniad ynglŷn â sut y dylid cyflwyno gwybodaeth yn eu cais, datblygu canlyniadau'r prosiect a sut i fesur a monitro effaith y gweithgareddau. Roedd y gefnogaeth hon yn ddefnyddiol i ymgeiswyr gan iddi eu galluogi i ddeall y math o wybodaeth y mae ei hangen ar y Gronfa Loteri Fawr, a sut y dylent gyflwyno eu cais.

Cefnogi ardaloedd gwahanol yng Nghymru

Mae swm yr arian ar gyfer rhaglen Pawb a'i Le a ddyfarnwyd yn amrywio ar draws Cymru. Nid yw diffyg ceisiadau mewn ardal o reidrwydd yn adlewyrchu llai o 'angen' am arian Pawb a'i Le. Dyma rai o'r esboniadau cychwynnol ynglŷn â pham mae ardaloedd penodol yng Nghymru'n derbyn lefelau gwahanol o arian gan raglen Pawb a'i Le:

- Mae arian ar gael gan ffynhonnell arall
- Mewn rhai ardaloedd a chymunedau, mae llai o bobl sydd â'r sgiliau y mae eu hangen i ddatblygu a pharatoi ceisiadau ariannu
- Diffyg adnoddau a gallu i ddarparu cyngor ac arweiniad i grwpiau cymunedol.

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r rheidrwydd i raglen Pawb a'i Le flaenoriaethu rhannau o Gymru sy'n derbyn lefelau ariannu is. Mae hyn oherwydd y gall arwain at sefyllfa lle mae ardaloedd daearyddol yn cael eu blaenoriaethu heb reswm da. Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn archwilio pam mae rhai ardaloedd yng Nghymru'n cael mynediad at fwy o arian nag ardaloedd eraill.

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Barn ymgeiswyr am y broses ymgeisio

Nododd 77 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus fod eu profiad cyffredinol o'r broses ymgeisio'n dda neu'n ardderchog o'i gymharu â 34 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus.

Er bod 53 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus yn graddio cyflymder y broses ymgeisio yn dda neu'n ardderchog, dim ond 20 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus oedd wedi mynegi'r un farn.

Ceir lefel uchel o geisiadau ariannu o ganlyniad i'r ffaith bod Pawb a'i Le'n rhaglen sy'n ymateb i alw, lle mae amrywiaeth eang o brosiectau'n gymwys i ymgeisio am arian. Er y dylai'r cyfnod amser ar gyfer asesu ceisiadau fod mor fyr â phosib, ni ddylai hyn olygu bod y broses asesu'n llai cadarn a theg.

Mae 99 y cant o gynigion amlinellol Pawb a'i Le'n cael eu hasesu o fewn 30 niwrnod ar ôl i'r Gronfa Loteri Fawr dderbyn y ffurflen ymgeisio, a hysbyswyd 96 y cant o sefydliadau a gyflwynodd geisiadau llawn am y penderfyniad ariannu o fewn chwe mis ar ôl i'r Gronfa dderbyn y ffurflen ymgeisio lawn.

Hoffai ymgeiswyr gael mwy o gyswllt gyda Swyddogion Grantiau i drafod ceisiadau naill ai ar sail bersonol neu drwy weithdai hyfforddi.

Cynaladwyedd gweithgareddau prosiect

Mae cynaladwyedd gweithgareddau prosiect yn parhau'n bryder i'r rhan fwyaf o brosiectau Pawb a'i Le. Bydd strategaethau ymadael a chynlluniau cynaladwyedd ar gyfer prosiectau'n fater allweddol wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. Mae 81 y cant o brosiectau'n bwriadu i'w prosiectau barhau y tu hwnt i'r arian gan Bawb a'i Le, ond 37 y cant yn unig sydd wedi datblygu strategaeth gynaladwyedd.

Mae 68 y cant o ymgeiswyr yn bwriadu ymgeisio am arian ychwanegol ar gyfer eu prosiect pan fydd eu prosiect Pawb a'i Le'n dod i ben, ac mae 31 y cant yn bwriadu bod yn hunangynhaliol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod gweithgareddau prosiect yn cael eu prif-ffrydio o fewn gwasanaethau asiantaethau eraill.

Abergele Youth Action, Conwy

Mae Abergele Youth Action wedi datblygu canolfan technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chaffi rhyngrwyd i bobl ifanc leol. Nod y prosiect yw gwella sgiliau bywyd, mynediad i gyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi.

Mae pwyllgor rheoli'r sefydliad yn brofiadol iawn ac ymysg y cynrychiolwyr mae pennaeth ysgol, gweithredydd cyfreithiol cymwysedig, cynghorydd ac arweinydd sgowtiaid. Mae eu gwybodaeth leol a'u profiad o weithio gyda phobl ifanc wedi profi'n bwysig iawn o ran rheoli'r sefydliad. Symbylwyd y broses o ymgeisio am arian Pawb a'i Le gan reolwr y sefydliad, sydd â phrofiad helaeth o lunio ceisiadau ariannu.

> "Profodd y prosiect Pawb a'i Le fod modd i ni gefnogi pobl ifanc yn y maes a diwallu eu hanghenion...roedd hyn yn ein galluogi i sicrhau ariannu pellach ar gyfer ein gwaith."
>
> Rheolwr Prosiect, Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Camau nesaf

Bydd y gwerthuswyr yn parhau i gyflawni gwaith maes ac ymweld â phrosiectau yn 2010. Bydd Wavehill Consulting yn cyfweld â phobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau er mwyn darganfod a yw prosiectau'n cael effaith ar eu bywydau ac, os ydynt, pam. Bydd y gwerthuswyr hefyd yn cyfweld â budd-ddeiliaid allweddol Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol er mwyn ymchwilio i pam mae rhai rhannau o Gymru'n fwy llwyddiannus na rhai eraill wrth hygyrchu arian Pawb a'i Le.